

# Mae gan Dduw ddiddordeb

“Am hynny mor werthfawr yw dy feddyliau gennyf, O Dduw!” (adn. 17) (B.W.M.)

## Beth am ddarllen Salm 139:7–24 ac yna myfyrio

Rheswm arall pam fod Cristnogion yn amau bod yna stori ynghudd yn eu bywydau o gwbl ydy nad ydyn nhw'n siŵr bod Duw yn cymryd diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw. Mae nifer o bethau yn ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw gredu bod Duw yn cymryd diddordeb personol yn y materion sy'n eu heffeithio – pethau fel mawredd y gofod, er enghraifft. Cofiaf seryddwr sy'n dweud ei fod yn Gristion yn dweud wrthyf fi un tro: “Pan ydw i'n edrych i fyny ar y sêr ac yn astudio dibendrawdod y gofod, mae hi'n ymddangos mor druenus o naif i fod yn dweud, ‘Mae gan Dduw ofal drosof fi, am berson bychan dinod fel fi.’”

Soniodd Samuel Chadwick yn ei lyfr *The Path to Prayer* am un beirniad na allai dderbyn y ffaith fod Duw ar waith ym mywydau ei blant, ac a heriodd bob crediniwr a gyfarfyddai efo'r geiriau hyn: “Dyma sydd gen i i'w ddweud wrthyf chi wybodusion bach ... dydw i ddim yn eich credu chi pan ddywedwch fod gan Dduw ddiddordeb ym materion eich bywyd. Mae Duw yn fawr.” Wrth ddweud, “Mae Duw yn fawr”, golygu roedd o, wrth gwrs, ei fod o'n *rhy* fawr i gymryd diddordeb yn y bobl sy'n byw yma ar y ddaear.

Yr ydym ni, fodd bynnag, yn dal ein gafael yng ngofal personol a diddordeb Duw yn ein bywydau, nid *er gwaethaf* ei fawredd, ond *o'i herwydd*. Er ei fod ymhell uwchlaw'r hyn y gallwn ni ei ddychmygu na'i feddwl amdano, yr ydym yn beiddio credu ei fod yn dod i lawr atom i ofyn am gariad ein calonnau tlawd ni. Er bod bydoedd hefyd yn cylchdroi yn ôl ei air, mae o'n dweud wrthym ni: “Ymlonyddwch, a dysgwch mai myfi sydd Dduw” (Salm 46:10). Efallai fod cyfarwyddwyr cwmni a phrif swyddogion yn gadael rhai manylion i'r rhai sydd oddi tany'n nhw, ond nid felly yr Hollalluog. Dydy o ddim yn dirprwyo'r gwaith o ddatblygu llinell stori ein bywydau ni i neb. Mae'n gwneud y gwaith ei hun. Gadewch i'r syniad yma dreiddio'n ddwfn i'n hymwybyddiaeth heddiw: bod y Duw y mae'n rhaid i angylion guddio eu hwynebau rhagddo yn ymgrymu i lawr atom i fod ynglŷn â'r manylion lleiaf yn ein bywydau.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 3:1–12; 4:10–12; Eiseia 42:5–7; Jer. 1:4–9

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Faint mor agos yn union mae Duw yn dod atom?
2. Beth yw ei bwrpas wrth ddod mor agos atom?

**Gweddi** O Dduw, mae'r syniad dy fod ti'n ymostwng i lawr er mwyn gofyn am gariad ein calonnau a bod gennyf ddiddordeb personol yn holl fanylion fy mywyd yn wybodaeth ry ryfedd i mi. Eto mae'n rhaid imi ei gredu am ei fod yn wir. “Rwyf fi yn credu, helpa di fy anghrediniaeth!” Yn enw Iesu. Amen.